

Cyflwynir yr argraffiad hwn er cof am

Hugo Leendert Philip Stibbe

Ysgrifennydd a Chyfarwyddwr Prosiect,
Comisiwn *Ad Hoc* ar Safonau Disgrifio yr ICA (1990-1996)
a Phwyllgor Safonau Disgrifio yr ICA (1996-2000)

a

Kent Haworth

Aelod,
Pwyllgor Safonau Disgrifio yr ICA (1996-2000),
Ysgrifennydd a Chyfarwyddwr Prosiect,
Pwyllgor Safonau Disgrifio yr ICA (2000-2002)

PARATOWYD GAN

Pwyllgor Safonau Disgrifio yr ICA – Mabwysiadwyd yn Canberra, Awstralia, 27-30 Hydref 2003

DOSBARTHIAID

Dosberthir Safon ICA ISAAR (CPF) ail argraffiad am ddim i holl aelodau'r CYNGOR RHYNGWLADOL ARCHIFAU (ICA). Fe'i dosberthir trwy gyfrwng gwefan yr ICA: www.ica.org.

HAWLFRAINT

© Cyngor Rhyngwladol Archifau, 60, rue des Francs-Bourgeois, 75003 Paris, Ffrainc.

ATGYNHYRCHU A CHYFIEITHU

Caniateir atgynhyrchu trwy gyfrwng cyfieithu neu adargraffu'r cwbl neu rannau at ddibenion anfasnachol ar yr amod y cydnabyddir hynny'n briodol.

ISBN 2-9521932-2-3

TABL CYNNWYS

RHAGAIR	5
1. CWMPAS A CHYNNWYS	7
2. SAFONAU A CHANLLAWIAU PERTHYNOL	9
3. RHESTR TERMAU A DIFFINIADAU	10
4. STRWYTHUR Y SAFON A'I DEFNYDD	11
5. ELFENNAU COFNOD AWDURDODAETH	13
5.1 MAES HUNANIAETH	13
5.1.1 Math o endid	13
5.1.2 Ffurf(iau) awdurdodedig ar enw	13
5.1.3 Ffurfiâu amgen ar enw	14
5.1.4 Ffurfiâu safonedig ar enw yn unol â rheolau eraill	14
5.1.5 Ffurfiâu eraill ar enw	14
5.1.6 Dynodwyr ar gyfer corfforaeth gorfforedig	15
5.2 MAES DISGRIFIO	16
5.2.1 Dyddiau bodolaeth	16
5.2.2 Hanes	16
5.2.3 Lleoedd	17
5.2.4 Statws cyfreithiol	17
5.2.5 Swyddogaethau, galwedigaethau a gweithgareddau	18
5.2.6 Mandadau/Ffynonellau awdurdod	18
5.2.7 Strwythurau mewnol/Achyddiaeth	20
5.2.8 Cyd-destun cyffredinol	21
5.3 MAES PERTHNASOEDD	22
5.3.1 Enwau/dynodwyr corfforaethau corfforedig, unigolion neu deuluoedd perthynol	22
5.3.2 Categori'r berthynas	22
5.3.3 Disgrifiad o'r berthynas	22
5.3.4 Dyddiadau'r berthynas	23
5.4 MAES RHEOLAETH	25
5.4.1 Dynodwr y cyfnod awdurdodaeth	25
5.4.2 Dynodwyr sefydliad	25
5.4.3 Rheolau a/neu gonfensiynau	26
5.4.4 Statws	26
5.4.5 Lefel manylder	27
5.4.6 Dyddiadau creu, adolygu neu ddileu	27
5.4.7 Ieithoedd ac arddulliau ysgrifennu	27
5.4.8 Ffynonellau	27
5.4.9 Nodiadau cynnal	28

6.	NODI PERTHYNAS CORFFORAETHAU CORFFOREDIG, UNIGOLION A THEULUOEDD Â DEUNYDDIAU ARCHIFOL AC ADNODDAU ERAILL	29
6.1	Dynodwyr a theitlau adnoddau perthynol	29
6.2	Mathau o adnoddau perthynol	29
6.3	Natur y berthynas	29
6.4	Dyddiadau adnoddau perthynol a/neu berthnasoddedd	29

ATODIAD A

Amlinelliad o'r gwahaniaethau yn yr elfennau disgrifio rhwng argraffiad cyntaf ISAAR (CPF) a'r ail argraffiad	32
---	----

ATODIAD B

Enghreifftiau llawn	33
1. Disgrifiad o Gorfforaeth gorfforedig. Iaith: Saesneg (UDA)	33
2. Disgrifiad o Gorfforaeth gorfforedig. Iaith: Sbaeneg (Sbaen)	35
3. Disgrifiad o Gorfforaeth gorfforedig. Iaith: Sbaeneg (Mecsico)	40
4. Disgrifiad o Gorfforaeth gorfforedig. Iaith: Portiwgaleg (Brasil)	43
5. Disgrifiad o Unigolyn. Iaith: Saesneg (Awstralia)	48
6. Disgrifiad o Unigolyn. Iaith: Eidaleg (Yr Eidal)	54
7. Disgrifiad o Unigolyn. Iaith: Swedeg (Sweden)	59
8. Disgrifiad o Unigolyn. Iaith: Almaeneg (Yr Almaen)	61
9. Disgrifiad o Unigolyn. Iaith: Saesneg (UDA)	62
10. Disgrifiad o deulu. Iaith: Saesneg (Y Deyrnas Gyfunol)	64
11. Disgrifiad o deulu. Iaith: Ffrangeg (Ffrainc)	68

RHAGAIR

- Rh1. Datblygwyd argraffiad cyntaf y safon hon gan Gomisiwn *Ad Hoc* ar Safonau Disgrifio yr ICA (ICA/DDS) yn ystod 1993-1995. Cyhoeddwyd y safon gan yr ICA ym 1996. Daeth ICA/DDS yn un o bwyllgorau sefydlog yr ICA yn y Gyngres Ryngwladol ar Archifau a gynhaliwyd yn Beijing, Tsieina, ym 1996. Ymgwymerodd y Pwyllgor Safonau Disgrifio (ICA/CDS) presennol â'r gwaith o adolygu ISAAR (CPF) fel ei brif orchwyl am y pedair blynedd 2000-2004.
- Rh2. Mae hwn, sef ail argraffiad ISAAR (CPF), yn ganlyniad proses adolygu a barhaodd am bum mlynedd ac y cytunwyd arni gan Bwyllgor Safonau Disgrifio'r ICA. Ddiwedd y flwyddyn 2000, gwahoddwyd sylwadau ar gyfer yr adolygiad oddi wrth y gymuned archifol ryngwladol, trwy anfon llythyrau at bob sefydliadol a chymdeithas a oedd yn aelod o'r ICA, ac at unedau sefydliadol perthnasol y tu mewn i'r ICA a sefydliadau rhyngwladol cyffelyb y tu allan iddi. Anfonwyd e-bost at Restr yr ICA a rhestrau trafod perthnasol eraill gyda'r un gwahoddiad. Cyhoeddwyd mai 31 Gorffennaf 2001 oedd y dyddiad cau ar gyfer sylwadau, gyda'r nod o gychwyn ar y gwaith adolygu yng nghyfarfod llawn y Pwyllgor ym Mrwsel, 3-6 Hydref 2001.
- Rh3. Erbyn Awst 2001 roedd Ysgrifenyddiaeth yr ICA/CDS wedi derbyn sylwadau gan 18 o bwyllgorau cenedlaethol, sefydliadau ac unigolion. Cyfunwyd yr holl sylwadau'n un ddogfen, a ddosbarthwyd i bob aelod o'r Pwyllgor cyn y cyfarfod llawn ym Mrwsel.
- Rh4. Ystyriwyd y sylwadau a dderbyniwyd yng nghyfarfod llawn ICA/CDS ym Mrwsel a phenderfynwyd ar nifer o newidiadau y dylid eu gwneud yn y safon. Cynhyrchwyd drafft cychwynnol yr adolygiad o ISAAR (CPF) wedi hynny, er mwyn adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed ym Mrwsel. Dosbarthwyd y drafft hwn i aelodau'r Pwyllgor ac fe'i mireiniwyd ymhellach yng nghyfarfodydd llawn y Pwyllgor ym Madrid, Mehefin 2002 a Rio de Janeiro, Tachwedd 2002. Cyhoeddwyd y drafft ar wefan yr ICA/CDS fis Ionawr 2003. Gofynnwyd bryd hynny am sylwadau oddi wrth y gymuned archifol ryngwladol ar y drafft adolygedig arfaethedig erbyn 15 Gorffennaf 2003. Ystyriwyd y sylwadau hyn yng nghyfarfod llawn y Pwyllgor yn Canberra, Awstralia, fis Hydref 2003, a chytunwyd ar fersiwn derfynol y safon ddiwygiedig. Fe'i cyflwynwyd ar ffurf gyhoeddedig i Gyngres yr ICA yn Fienna yn 2004.
- Rh5. Mae'r ail argraffiad hwn o ISAAR (CPF) yn fersiwn estynedig ac ailstrwythuredig o argraffiad cyntaf (1996) y safon. Roedd argraffiad 1996 o'r safon yn cynnwys tri maes, Maes Rheolaeth Awdurdodaeth, Maes Gwybodaeth a Maes Nodiadau. Mae'r argraffiad hwn yn cynnwys pedwar maes: Maes Hunaniaeth (sydd yn debyg i'r Maes Rheolaeth Awdurdodaethgynt); Maes Disgrifio (sydd yn debyg i'r Maes Gwybodaeth gynt); Maes Perthnasoedd a Maes Rheolaeth (sydd yn debyg i'r Maes Nodiadau gynt). Mae'r ddau faes olaf hyn i bob pwrpas yn ychwanegiadau o'r newydd at y safon, er bod peth darpariaeth ar gyfer nodi perthnasoedd yn elfen 2.3.8 yn argraffiad 1996. Strwythurwyd a lluniwyd elfennau a rheolau o fewn y pedwar maes newydd er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir o gysyniadau ac ymarferion gwell wrth nodi cyd-destun archifau. Mae'r argraffiad hwn hefyd yn cynnwys adran sy'n disgrifio sut y gellir cysylltu cofnodion awdurdodaeth archifol â deunyddiau archifol ac adnoddau eraill, yn cynnwys disgrifiadau archifol sy'n cydymffurfio ag ISAD(G). Mewn sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth y gymuned broffesiynol yn ystod y broses adolygu mynegwyd y farn bod angen sicrhau gwell eglurder ac arweiniad llawnach nag a geid yn argraffiad 1996. Gobaith y Pwyllgor yw y bydd yr argraffiad newydd hwn yn ymdrin â'r rhan fwyaf o'r pryderon ymarferol a chysyniadol a leisiwyd gan ymarferwyr sydd wedi ceisio llunio systemau rheolaeth awdurdodaeth archifol sy'n cydymffurfio ag ISAAR (CPF). Ceir cymhariaeth o'r elfennau disgrifio rhwng yr argraffiad cyntaf a'r ail argraffiad o'r safon yn Atodiad A.

Rhestrir isod aelodau Pwyllgor Safonau Disgrifio yr ICA a wnaeth yr adolygiad ac a wasanaethodd ar y Pwyllgor yn ystod tymor 2000-2004.

Nils Brübach (Yr Almaen)
Herman Coppens (Gwlad Belg)
Adrian Cunningham (Awstralia) Cyfarwyddwr Prosiect ac Ysgrifennydd, 2002-2004
Blanca Desantes Fernández (Sbaen)
Vitor Manoel Marques da Fonseca (Brasil)
Michael Fox (UDA)
Bruno Galland (Ffrainc)
Kent Haworth (Canada) Cyfarwyddwr Prosiect ac Ysgrifennydd, 2000-2002
Juan Manuel Herrera (Mecsico), 2002-2003
Gavan McCarthy (Awstralia), 2002-
Per-Gunnar Ottosson (Sweden)
Lydia Reid (UDA)
Dick Sargent (Y Deyrnas Gyfunol)
Claire Sibille (Ffrainc), 2003-
Hugo Stibbe (Canada) Cyfarwyddwr Prosiect ac Ysgrifennydd Dros Dro, Mehefin 2002
Yolia Tortolero (Mecsico), 2003-
Stefano Vitali (Yr Eidal) Cadeirydd

Mae Pwyllgor Safonau Disgrifio yr ICA yn cydnabod y sefydliadau canlynol yn ddiolchgar am noddi ei gyfarfodydd llawn:

Archives Generales du Royaume ac Archives de l'État dans les Provinces (Brwsel, Gwlad Belg)

Ministerio de Cultura. Subdirección General de los Archivos Estatales (Sbaen)

Arquivo Nacional (Brasil)

National Archives of Australia (Awstralia)

UNESCO

Heb eu cyfraniadau sylweddol o ran arian ac o ran cyfleusterau a threfniadau wrth drefnu'r cyfarfodydd, ni fyddai adolygiad o'r safon hon wedi bod yn bosibl.

1. CWMPAS A PHWRPAS

- 1.1 Mae'r safon hon yn cynnig arweiniad ar lunio cofnodion awdurdodaeth archifol sy'n darparu disgrifiadau o endidau (corfforaethau corfforedig, unigolion a theuluoedd) sy'n gysylltiedig â chreu a chynnal archifau.
- 1.2 Gellir defnyddio cofnodion awdurdodaeth archifol:
- i disgrifio corfforaeth gorfforedig, unigolyn neu deulu fel uned o fewn system ddisgrifio archifol; a/neu
 - i reoli'r dasg o greu a defnyddio pwyntiau mynediad mewn disgrifiadau archifol;
 - i nodi perthnasoedd rhwng gwahanol grewyr cofnodion a'i gilydd, a rhwng yr endidau hynny a'r cofnodion a grëwyd ganddynt a/neu adnoddau eraill amdanynt neu adnoddau a grëwyd ganddynt.
- 1.3 Mae disgrifio crewyr cofnodion yn weithgaredd hanfodol gan archifyddion, boed y disgrifiadau'n cael eu lleoli mewn system ffisegol neu mewn un awtomeiddiedig. Rhaid wrth ddogfennaeth lawn a rhaid cynnal yn barhaus gyd-destun creu a defnyddio'r cofnodion, yn bennaf oll o ran tarddiad archifau a chofnodion.
- 1.4 Mae safon ISAD(G): Safon Ryngwladol Gyffredinol ar gyfer Disgrifio Archifol, sydd yn gymar i'r ddogfen hon, yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnwys gwybodaeth gyd-destunol fel rhan o ddisgrifiad archifol ar unrhyw lefel. Mae ISAD(G) hefyd yn cydnabod y posibilrwydd o ddal a chynnal gwybodaeth gyd-destunol yn annibynnol, gan gysylltu'r wybodaeth gyd-destunol honno â'r cyfuniad o elfennau eraill o wybodaeth a ddefnyddir i ddisgrifio archifau a chofnodion.
- 1.5 Mae nifer o resymau pam bod dal a chynnal y math hwn o wybodaeth gyd-destunol ar wahân yn rhan hanfodol o ddisgrifio archifol. Mae'r arfer yn caniatáu i ddisgrifiadau o grewyr cofnodion a gwybodaeth gyd-destunol gael eu cysylltu â disgrifiadau o gofnodion gan yr un crëwr/crewyr a allai fod mewn mwy nag un archifdy, ac â disgrifiadau o adnoddau eraill megis deunyddiau mewn llyfrgelloedd a/neu amgueddfeydd sy'n ymwneud â'r endid dan sylw. Mae cysylltiadau o'r fath yn gwella arferion rheoli cofnodion ac yn hwyluso ymchwil.
- 1.6 Mae modd rhannu gwybodaeth gyd-destunol am ffynhonnell sydd â deunydd mewn sawl archifdy os yw'r wybodaeth wedi ei chadw mewn dull safonedig. Mae safoni o'r fath o fudd rhyngwladol arbennig pan fo'n debygol y bydd rhannu neu gysylltu gwybodaeth gyd-destunol yn debygol o groesi ffiniau cenedlaethol. Mae natur ryngwladol gwarchod cofnodion ddoe a heddiw yn ennyn cymhelliant am safoni rhyngwladol a fydd yn hwyluso cyfnewid gwybodaeth gyd-destunol. Er enghraifft, mae prosesau megis coloneiddio, mewnfudo a masnachu wedi cyfrannu at natur ryngwladol cadw cofnodion.
- 1.7 Bwriedir i'r safon hon hwyluso rhannu cofnodion awdurdodaeth archifol trwy hyrwyddo disgrifiadau cyson, priodol a hunanesboniadol o gorfforaethau corfforedig, unigolion a theuluoedd sy'n creu cofnodion. Bwriedir iddi gael ei defnyddio ar y cyd â safonau cenedlaethol sy'n bodoli eisoes, neu fel sail ar gyfer datblygu safonau cenedlaethol.
- 1.8 Mae cofnodion awdurdodaeth archifol yn ymdebygu i gofnodion awdurdodaeth lyfrgellyddol yn y modd y mae angen i'r ddwy ffurf ar gofnod awdurdodaeth hwyluso'r gwaith o greu pwyntiau mynediad safonedig mewn disgrifiadau. Un o'r pwyntiau mynediad pwysicaf hyn yw enw crëwr yr uned a ddisgrifir. Mae angen i bwyntiau mynediad gynnwys unrhyw oleddfair/eiriau a ystyrir yn hanfodol er mwyn egluro pa endid a enwir, fel y gellir gwahanu'n gywir rhwng gwahanol endidau sydd â'r un enw neu sydd ag enwau tebyg iawn i'w gilydd.
- 1.9 Mae angen i gofnodion awdurdodaeth archifol, fodd bynnag, ateb llawer mwy o ofynion na chofnodion awdurdodaeth llyfrgellyddol. Mae'r gofynion ychwanegol hyn yn ymwneud â'r pwysigrwydd o ddogfennu gwybodaeth am grewyr cofnodion a chyd-destun creu'r cofnodion mewn systemau disgrifio archifol. Oherwydd hyn, mae cofnodion awdurdodaeth archifol yn mynd ymhellach ac, fel arfer, yn cynnwys llawer mwy o wybodaeth na chofnodion awdurdodaeth llyfrgellyddol.

- 1.10 Prif bwrpas y safon hon, felly, yw darparu rheolau cyffredinol ar gyfer safoni disgrifiadau archifol o grewyr cofnodion a chyd-destun creu cofnodion, a thrwy hynny wneud y canlynol yn bosibl:
- mynediad at archifau a chofnodion yn seiliedig ar ddarpariaeth disgrifiadau am gyd-destun creu'r cofnodion, sydd wedi cysylltu â disgrifiadau o'r cofnodion, sydd yn aml yn amrywiol iawn ac ar chwâl yn ffisegol;
 - dealltwriaeth gan ddefnyddwyr o'r cyd-destun sydd y tu ôl i greu a defnyddio archifau a chofnodion fel y gallant ddehongli eu hystyr a'u harwyddocâd yn well;
 - canfod yn fanwl-gywir pwy oedd crewyr y cofnodion, yn cynnwys disgrifiadau o'r berthnas rhwng gwahanol endidau, gan ddogfennu yn arbennig newid gweinyddol o fewn corfforaethau corfforedig neu newid yn amgylchiadau personol unigolion neu deuluoedd;
 - cyfnewid y disgrifiadau hyn rhwng sefydliadau, systemau a/neu rwydweithiau.
- 1.11 Gall cofnod awdurdodaeth archifol sy'n cydymffurfio â'r safon hon hefyd fod yn gyfrwng i reoli ffurf enw a dull adnabod corfforaeth gorfforedig, unigolyn neu deulu a enwir mewn pwynt mynediad sy'n perthyn i'r uned ddisgrifio archifol.

2. SAFONAU A CHANLLAWIAU PERTHYNOL

Dalier Sylw: Mae'r rhestr hon yn cynnwys dyddiadau'r safonau perthnasol fel yr oeddynt ar adeg gorffen yr 2il argraffiad o ISAAR(CPF) ddiwedd 2003. Anogir darllenwyr i gyfeirio yn y dyfodol at yr argraffiad diweddaraf o bob safon.

ISAD (G) - *ISAD(G) Safon Ryngwladol Gyffredinol ar gyfer Disgrifio Archifol*, 2il arg., Madrid: Cyngor Rhyngwladol Archifau, 2000.

ISO 639-2 - *Codes for the representation of names of languages, Alpha-3 code*, Geneva: Sefydliad Safonau Rhyngwladol, 1998.

ISO 690 - *Documentation - Bibliographic references - Content, form and structure*, Geneva: Sefydliad Safonau Rhyngwladol, 1987.

ISO 690-2 - *Documentation - Bibliographic references - Electronic documents or parts thereof*, Geneva: Sefydliad Safonau Rhyngwladol, 1992.

ISO 999 - *Information and documentation - Guidelines for the content, organization and presentation of indexes*, Geneva: Sefydliad Safonau Rhyngwladol, 1996.

ISO 2788 - *Documentation - Guidelines for the establishment and development of monolingual thesauri*, Geneva: Sefydliad Safonau Rhyngwladol, 1986.

ISO 3166 - *Codes for the representation of names of countries*, Geneva: Sefydliad Safonau Rhyngwladol, 1997.

ISO 5963 - *Documentation - Methods for examining documents, determining their subjects, and selecting indexing terms*, Geneva: Sefydliad Safonau Rhyngwladol, 1985.

ISO 5964 - *Documentation - Guidelines for the establishment and development of multilingual thesauri*, Geneva: Sefydliad Safonau Rhyngwladol, 1985.

ISO 8601 - *Data elements and interchange formats - Information interchange - Representation of dates and times*, 2il arg., Geneva: Sefydliad Safonau Rhyngwladol, 2000.

ISO 15489 - *Information and documentation - Records management, parts 1 and 2*, Geneva: Sefydliad Safonau Rhyngwladol, 2001.

ISO 15511 - *Information and documentation - International standard identifier for libraries and related organizations*, Geneva: Sefydliad Safonau Rhyngwladol, 2003.

ISO 15924 - *Codes for the representation of names of scripts*, Geneva: Sefydliad Safonau Rhyngwladol, 2003.

Guidelines for Authority Records and References / adolygwyd gan Weithgor Ffederasiwn Rhyngwladol Cymdeithasau Llyfrgell (IFLA) ar adolygu GARE, 2il arg., München: K.G. Saur, 2001 (Cyhoeddiadau UBCIM, Cyfres newydd, cyf. 23).

Mandatory data elements for internationally shared resource authority records: report of the IFLA UBCIM Working group on Minimal Level Authority Records and ISADN, 1998
<<http://www.ifla.org/VI/3/p1996-2/mlar.htm>> (y cyfeirir ato fel "MLAR").

Form and Structure of Corporate Headings: Recommendations of the Working Group on Corporate Headings. Cymeradwywyd gan Bwyllgorau Sefydlog Adrannau Catalogio a Chyhoeddiadau Swyddogol IFLA, 1980. (diweddarwyd yn *International Cataloguing and Bibliographic Control*, 1992).

3. RHESTR TERMAU A DIFFINIADAU

Mae'r rhestr termau sy'n dilyn yn rhan annatod o'r safon hon. Diffinnir y termau yng nghyd-destun y rheolau.

Cofnod. Gwybodaeth mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, wedi ei chreu neu ei derbyn a'i chynnal gan gorff neu unigolyn wrth drafod busnes neu wrth i'w gweithgareddau fynd rhagddynt.

Cofnod awdurdodaeth. Ffurf awdurdodedig ar enw, ynghyd ag elfennau eraill o wybodaeth sy'n nodi'r endid a enwir ac yn ei ddisgrifio, ac sydd, o bosibl, yn arwain at gofnodion awdurdodaeth eraill perthnasol.

Corfforaeth gorfforedig. Corff neu grŵp o unigolion a adnabyddir wrth enw penodol ac sydd yn gweithredu, neu'n cael gweithredu, fel endid. Gall gynnwys hefyd unigolyn sydd yn gweithredu yn unol â rôl gorfforaethol.

Crëwr. Unrhyw endid (corfforaeth gorfforedig, teulu neu unigolyn) a greodd, a grynhodd a/neu a gynhaliai gofnodion wrth weithredu'n bersonol neu'n gorfforaethol.

Disgrifiad archifol. Creu cynrychioliad cywir o uned ddisgrifio a'i chydrannau, os oes rhai, trwy gywain, dadansoddi, trefnu a chofnodi gwybodaeth sy'n adnabod, rheoli, lleoli ac esbonio deunyddiau archifol a'r cyd-destun a'r gweithdrefnau cofnodion a'i chynhyrchodd.

Dynodwr. Gwybodaeth a ychwanegir at elfen ddisgrifiadol ac sydd yn cynorthwyo i adnabod, deall a/neu ddefnyddio'r cofnod awdurdodaeth.

Pwynt mynediad. Enw, term, allweddair, cymal neu god y gellir ei ddefnyddio i chwilio am, adnabod a lleoli disgrifiadau archifol, yn cynnwys cofnodion awdurdodaeth.

Tarddiad. Y berthnas rhwng y cofnodion a'r cyrff neu unigolion a'u creodd, a'u crynhodd neu a'u cynhaliai a'u defnyddio wrth gynnal eu gweithgareddau personol neu gorfforaethol.

4. STRWYTHUR Y SAFON A'I DEFNYDD

- 4.1 Mae'r safon hon yn pennu'r mathau o wybodaeth y gellid eu cynnwys mewn cofnod awdurdodaeth archifol, ac yn cynnig arweiniad ar sut y gellir defnyddio cofnodion o'r fath mewn system ddisgrifio archifol. Penderfynir ar gynnwys yr elfennau o wybodaeth a roddir mewn cofnod awdurdodaeth yn ôl y confensiynau a/neu'r rheolau a ddilynir gan yr asiantaeth.
- 4.2 Ffurfir y safon hon gan elfennau o wybodaeth, ac mae pob un yn cynnwys:
- enw'r elfen ddisgrifio;
 - datganiad am ddiben yr elfen ddisgrifio;
 - y rheol (neu'r rheolau) sy'n berthynol i'r elfen; a
 - lle bo'n berthnasol, enghreifftiau sy'n dangos sut y gweithredir y rheol.
- 4.3 Rhifir y paragraffau ac fe'u nodir ar gyfer cyfeirio atynt a dim arall. Ni ddylid eu defnyddio i nodi elfennau disgrifio nac i reoli trefn neu strwythur adnoddau disgrifiadol.
- 4.4 Trefnir elfennau disgrifio cofnod awdurdodaeth archifol yn ôl pedwar maes gwybodaeth::
- Maes Hunaniaeth
(Ile ceir gwybodaeth sydd yn nodi'r endid a ddisgrifir mewn dull unigryw ac yn diffinio pwyntiau mynediad safonedig y cofnod)
 - Maes Disgrifio
(Ile ceir gwybodaeth am natur, cyd-destun a gweithgareddau'r endid a ddisgrifir)
 - Maes Perthnasoedd
(Ile mae perthnasoedd â chorfforaethau corfforedig, unigolion a/neu deuluoedd eraill yn cael eu cofnodi a'u disgrifio)
 - Maes Rheolaeth
(Ile nodir y cofnod awdurdodaeth mewn dull unigryw a lle cofnodir gwybodaeth am sut, pryd a pha asiantaeth a grëodd ac a gynhaliodd y cofnod awdurdodaeth).
- 4.5 Mae'r safon hon yn cynnig canllawiau hefyd, ym Mhennod 6, ar gyfer cysylltu cofnodion awdurdodaeth archifol â'r disgrifiadau o gofnodion a grëwyd gan endidau a/neu ag adnoddau eraill sy'n cynnwys gwybodaeth amdanynt neu ganddynt. Mae Pennod 6 hefyd yn cynnwys modelau data sy'n dangos y perthnasoedd rhwng cofnodion awdurdodaeth sy'n disgrifio crewyr cofnodion archifol a disgrifiadau o'r archifau a grëwyd gan yr endidau hynny.
- 4.6 Ceir amlinelliad yn Atodiad A o'r gwahaniaethau rhwng elfennau disgrifio argraffiad cyntaf y safon hon a'r argraffiad presennol. Yn Atodiad B, ceir enghreifftiau llawn o gofnodion awdurdodaeth archifol a luniwyd yn unol â'r safon hon.
- 4.7 Gellir defnyddio'r holl elfennau sy'n gynnwysedig yn y rheolau hyn, ond mae'r pedair elfen ganlynol yn orfodol:
- Math o endid (elfen 5.1.1);
 - Ffurfi(iau) awdurdodedig ar enw (elfen 5.1.2);
 - Dyddiadau bodolaeth (elfen 5.2.1); a
 - Dynodwr y cofnod awdurdodaeth (elfen 5.4.1).
- 4.8 Bydd natur yr endid a ddisgrifir a gofnyon y system neu'r rhwydwaith penodol a ddefnyddir gan y sawl sy'n llunio cofnod awdurdodaeth archifol yn pennu pa elfennau disgrifio dewisol a ddefnyddir mewn cofnod awdurdodaeth ac ym mha fformat y'u cyflwynir, sef ar ffurf draethiadol a/neu ffurf strwythuredig.
- 4.9 Bydd llawer o'r elfennau disgrifiadol mewn cofnod awdurdodaeth sy'n cydymffurfio ag ISAAR(CPF) yn cael eu defnyddio fel pwyntiau mynediad. Gellir datblygu rheolau a chonfensiynau ar gyfer safoni pwyntiau mynediad yn genedlaethol neu ar wahân ar gyfer pob iaith. Gellir datblygu'n genedlaethol, neu ar wahân ar gyfer pob iaith, restrau o dermau a chonfensiynau, hefyd, i'w defnyddio wrth greu neu ddethol data i'w gynnwys. Mae'r safonau ISO canlynol yn ddefnyddiol wrth ddatblygu a chynnal restrau termau rheoledig: ISO 5963 *Documentation - Methods for examining documents, determining their subjects, and selecting indexing terms*, ISO 2788 *Documentation - Guidelines for the establishment and development of monolingual thesauri*, ISO 5964 *Documentation - Guidelines for the establishment and development of multilingual thesauri* ac ISO 999 *Information and Documentation - Guidelines for the content, organization and presentation of indexes*. Wrth ddyfynnu ffynhonnell gyhoeddedig mewn elfen ddisgrifio, awgrymir i asiantaethau ddilyn fersiwn ddiweddaraf ISO 690 *Documentation - Bibliographic references - Content, form and structure*.

- 4.10 Cynigir enghreifftiau trwy gydol y safon at ddiben egluro'n unig ac nid ydynt yn orfodol. Maent yn taflu goleuni ar yr hyn sydd yn y rheolau cysylltiol, yn hytrach nac ehangu arnynt. Ni ddylid ystyried yr enghreifftiau, na'r ffurf y cyflwynwyd hwy ynnddi, fel cyfarwyddiadau. Dilynir pob enghraifft, er mwyn egluro'r cyd-destun, gan enw'r asiantaeth a ddarparodd yr enghraifft honno, a hynny mewn ffont italig. Weithiau, ceir nodiadau esboniadol pellach, hefyd mewn ffont italig, wedi eu rhagflaenu gan y gair 'Nodiadau:'. Ni ddylid cymysgu enw'r asiantaeth ac unrhyw nodiadau â'r enghraifft ei hun.
- 4.11 Bwriedir i'r safon hon gael ei defnyddio mewn cysylltiad ag ISAD(G) - *Safon Ryngwladol Gyffredinol ar gyfer Disgrifio Archifol*, 2il argraffiad, a safonau disgrifio archifol cenedlaethol. Lle defnyddir y safonau hyn ar y cyd yng nghyd-destun system neu rwydwaith disgrifio archifol, bydd cofnodion awdurdodaeth yn cael eu cysylltu â disgrifiadau archifau, a *vice versa*. Gweler Pennod 6 am arweiniad ar sut y gellir creu'r cysylltiadau hyn. Gellir cysylltu disgrifiadau o archifau a chofnodion â chofnodion awdurdodaeth archifol yn yr elfen Enw crëwr/crewyr (3.2.1) a'r elfen Hanes gweinyddol/bywgraffyddol (3.2.2) mewn disgrifiad sy'n cyd-fynd ag ISAD(G).
- 4.12 Bwriedir i'r safon hon gael ei defnyddio ar y cyd â safonau a chonfensiynau cenedlaethol. Er enghraifft, gallai archifyddion ystyried safonau cenedlaethol wrth benderfynu pa elfennau y dylid neu na ddylid eu hail-adrodd. Mewn llawer o wledydd, mae systemau disgrifio archifol yn gofyn am un ffurf Awdurdodedig yn unig ar enw ar gyfer endid, tra bod rhyddid mewn gwledydd eraill i greu mwy nag un ffurf Awdurdodedig ar enw.
- 4.13 Nid yw'r safon hon yn ymdrin â'r holl amodau sy'n angenrheidiol ar gyfer cyfnewid gwybodaeth awdurdodaeth archifol. Os am fedru cyfnewid gwybodaeth awdurdodaeth archifol yn awtomeiddiedig dros rwydweithiau cyfrifiadurol yn llwyddiannus, rhaid i'r archifdai sy'n cyfnewid data fabwysiadu fformat addas ar gyfer cyfathrebu. Un fformat o'r fath yw Cyd-destun Archifol Amgodiedig (EAC), sydd yn caniatáu i ddata awdurdodaeth archifol sy'n cydymffurfio ag ISAAR(CPF) gael ei gyfnewid dros y We Fyd-eang. Mae EAC wedi cael ei ddatblygu ar ffurf Diffiniadau o Fathau o Ddogfen (DTDau) mewn XML (Iaith Nodi Estynnol) ac SGML (Iaith Nodi Gyffredinol Safonol).

5. ELFENNAU COFNOD AWDURDODAETH

5.1 MAES HUNANIAETH

5.1.1 Math o endid

Diben:

Nodi a yw'r endid a ddisgrifir yn gorfforaeth gorfforedig, yn unigolyn neu'n deulu.

Rheol:

Manylar ar y math o endid (corfforaeth gorfforedig, unigolyn neu deulu) a ddisgrifir yn y cofnod awdurdodaeth hwn.

Enghreifftiau:

Institución

Sbaen, Archivo General de Simancas

Nodyn: *Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Consejo de Guerra*

Ente

Yr Eidal, Archivio di Stato di Firenze

Nodyn: *Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Granducato di Toscana, principato mediceo, Auditore dei benefici ecclesiastici, Firenze (1545-1722)/ Granducato di Toscana, principato mediceo, Segreteria del Regio diritto, Firenze (1722-1737)*

Famille

Ffrainc, Centre historique des Archives nationales

Nodyn: *Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Orléans, maison d'*

Entidade coletiva

Brasil, Arquivo Nacional

Nodyn: *Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Arquivo Nacional (Brasil)*

5.1.2 Ffurf(iau) awdurdodedig ar enw

Diben:

Creu pwynt mynediad awdurdodedig sydd yn gyfrwng unigryw ar gyfer adnabod y gorfforaeth gorfforedig, yr unigolyn neu'r teulu.

Rheol:

Cofnoder y ffurf safonedig ar enw'r endid a ddisgrifir yn unol ag unrhyw gonfensiynau neu reolau cenedlaethol neu ryngwladol a ddefnyddir gan yr asiantaeth a greodd y cofnod awdurdodaeth. Defnyddier dyddiadau, lle, awdurdod, galwedigaeth, ansoddair neu epithed a goleddfeiriau eraill i wahaniaethu rhwng ffurf awdurdodedig yr enw ag enwau endidau eraill sydd ag enwau cyffelyb. Noder ar wahân, yn yr elfen Rheolau a/neu gonfensiynau (5.4.3) pa set o reolau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr elfen hon.

Enghreifftiau:

Granducato di Toscana, principato mediceo, Auditore dei benefici ecclesiastici, Firenze (1545-1722)

Granducato di Toscana, principato mediceo, Segreteria del Regio diritto, Firenze (1722-1737)

Yr Eidal, Archivio di Stato di Firenze

Nodyn: *Ffurffau awdurdodedig lluosog ar enw'r un gorfforaeth gorfforedig*

Consejo de Guerra

Sbaen, Archivo General de Simancas

Nodyn: *Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Consejo de Guerra*

Noel family, Earls of Gainsborough

Y Deyrnas Gyfunol, Yr Archifau Cenedlaethol: Comisiwn Brenhinol ar Lawysgrifau Hanesyddol

York University Senior Common Rooms Inc.

Canada, York University Archives

Dampierre, Auguste-Henri-Marie Picot de (1756-1793 ; général)

Ffrainc, Archives départementales de l'Aube

5.1.3 Ffurfiâu amgen ar enw

Diben:

Nodi'r gwahanol ffurfiâu y mae'r ffurf awdurdodedig ar enw yn ymddangos ynddynt mewn ieithoedd neu arddulliau eraill.¹

Rheol:

Cofnoder y ffurf(iau) cyfatebol ar yr enw yn unol ag unrhyw gonfensiynau neu reolau cenedlaethol neu ryngwladol perthnasol a ddefnyddir gan yr asiantaeth a greodd y cofnod awdurdodaeth, yn cynnwys unrhyw is-elfennau a/neu oleddeffuriau angenrheidiol y gofynnir amdanynt gan y confensiynau neu reolau hynny. Noder yn yr elfen Rheolau a/neu gonfensiynau (5.4.3) pa reolau a ddefnyddiwyd.

Enghreifftiau:

Maestre Racional de la Casa y Corte del Rey de Aragón

Y

Mestre Racional de la Casa i Cort del Rei d' Aragón.

Sbaen, Archivo de la Corona de Aragón

Nodyn: *Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Maestre Racional de la Casa y Corte del Rey de Aragón*

Awdurdod Cwricwlwm ac Asesu Cymru, 1994-1997

AND

Curriculum and Assessment Authority of Wales, 1994-1997

Y Deyrnas Gyfunol, Yr Archifau Cenedlaethol: Comisiwn Brenhinol ar Lawysgrifau Hanesyddol

International Institute of human rights

Instituto internacional de derechos humanos

Ffrainc, Centre historique des Archives nationales

Nodyn: *Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Institut international des droits de l'homme*

5.1.4 Ffurfiâu safonedig ar enw yn unol â rheolau eraill

Diben:

Dangos ffurfiâu safonedig ar enw'r gorfforaeth gorfforedig, unigolyn neu deulu sydd wedi eu llunio ar sail rheolau gwahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd i lunio ffurf awdurdodedig yr enw. Gall hyn ei gwneud yn hwylusach i gymunedau proffesiynol rannu cofnodion awdurdodaeth â'i gilydd.

Rheol:

Cofnoder ffurf safonedig yr enw ar gyfer yr endid a ddisgrifir yn unol â chonfensiynau neu reolau eraill. Noder y rheolau a/neu (os yn briodol) enw'r asiantaeth a luniodd y ffurfiâu safonedig hyn ar enw.

Enghreifftiau:

Toscana (Granducato), Segreteria del regio diritto

(RICA = Regole italiane di catalogazione per autore)

Yr Eidal, Archivio di Stato di Firenze

Nodyn: *Furf safonedig ar yr enw Granducato di Toscana, principato mediceo, Auditore dei benefici ecclesiastici, Firenze (1545-1722)/ Granducato di Toscana, principato mediceo, Segreteria del Regio diritto, Firenze (1722-1737), Yn unol â rheolau catalogio llyfrgelloedd yr Eidal*

Mistry, Rohinton, 1952- [AACR2]

Canada, York University Archives

5.1.5 Ffurfiâu eraill ar enw

Diben:

Nodi unrhyw enw arall/enwau eraill am y gorfforaeth gorfforedig, unigolyn neu deulu nas defnyddiwyd yn unman arall yn y Maes Hunaniaeth.²

Rheol:

Cofnoder enwau eraill a roddir ar yr endid, megis:

- a) ffurfiâu eraill ar yr un enw, e.e. acronymau;
- b) enwau eraill corfforaethau corfforedig, er enghraifft, newidiadau yn yr enw dros gyfnod o amser, ynghyd â dyddiadau'r newidiadau hynny;³

¹ Mewn rhai achosion, yn enwedig mewn gwledydd sydd â mwy nag un iaith swyddogol, gall yr asiantaeth sy'n gyfrifol am y cofnod awdurdodaeth sefydlu un neu fwy o ffurfiâu awdurdodedig ar enw, gan eu cydnabod fel rhai â statws cyfochrog neu gyfartal. Digwydd hyn, fel arfer, yn achos corfforaethau corfforedig gydag enw â statws swyddogol mewn mwy nag un iaith a/neu arddull ysgrifennu.

² Mewn systemau a weithredir â llaw, dylid croesgyfeirio rhwng Ffurfiâu amgen ar enw a Furf awdurdodedig ar enw trwy ddefnyddio cyfeiriad yn dilyn y gair GWELER.

³ Lle ystyrir, yn unol â rheolau a/neu gonfensiynau cenedlaethol, bod newid enw yn golygu bod endid newydd wedi ei greu, dylid cofnodi'r berthynas rhwng y ddau endid fel perthynas Amserol yn y Maes Perthnasoedd (5.3).

- c) enwau eraill ar unigolion neu deuluoedd, er enghraifft, newidiadau i enw dros gyfnod o amser, gyda'r dyddiadau, yn cynnwys ffugenwau, enwau cyn priodi ayb;
- ch) enwau a theitlau a ddaw cyn neu ar ôl enwau unigolion a theuluoedd, e.e. teitlau uchelwyr, neu deitlau a roddir er anrhydedd i'r unigolyn neu i'r teulu.

Enghreifftiau:

Regio diritto

Segreteria della reale giurisdizione

*Yr Eidal, Archivio di Stato di Firenze***Nodyn:** *Ffurf arall ar yr enw ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Granducato di Toscana, principato mediceo,**Auditore dei benefici ecclesiastici, Firenze (1545-1722)/ Granducato di Toscana, principato mediceo,**Segreteria del Regio diritto, Firenze (1722-1737)*

<i>Ffurf amgen ar enw</i>	<i>Croesgyfeiriad</i>	<i>Ffurf awdurdodedig ar enw</i>
Consejo de Guerra y Marina Consejo de la Guerra Supremo Consejo de Guerra Real y Supremo Consejo de Guerra	Gweler	Consejo de Guerra

*Sbaen, Archivo General de Simancas***Nodyn:** *Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Consejo de Guerra*

Noel family, Barons Noel

Noel family, Barons Barham

Noel family, Viscounts Campden

Noel family, baronets, of Barham Court

Y Deyrnas Gyfunol, Yr Archifau Cenedlaethol: Comisiwn Brenhinol ar Lawysgrifau Hanesyddol

Bordeaux, duc de

*Ffrainc, Centre historique des Archives nationales***Nodyn:** *Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Chambord, Henri, comte de*

Arquivo Público do Império (1838 – 1890)

Arquivo Público do Império

Arquivo Público Nacional (1890 – 1911)

Arquivo Público Nacional

Arquivo Nacional (1911 -)

Arquivo Nacional

*Brasil, Arquivo Nacional***Nodyn:** *Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Arquivo Nacional (Brasil)***5.1.6 Dynodwyr ar gyfer corfforaeth gorfforedig***Diben:*

Darparu unrhyw ddynodwyr rhifol neu alffa-rifol a ddefnyddir i ddynodi'r gorfforaeth gorfforedig.

Rheol:

Cofnoder, lle bo modd, unrhyw rif neu ddynodwr arall swyddogol (e.e. rhif cofrestru cwmni) ar gyfer y gorfforaeth gorfforedig, gan gyfeirio at yr awdurdod a'r cynllun a ddefnyddiwyd wrth ei ddyrannu.

Enghreifftiau:

Registered company 60096 (Companies House, England)

*Y Deyrnas Gyfunol, Yr Archifau Cenedlaethol: Comisiwn Brenhinol ar Lawysgrifau Hanesyddol***Nodyn:** *Ar gyfer y gorfforaeth gorfforedig Cerain Iron Ore Company Ltd*

04.374.067/0001-47 (Cadastro Nacional de Pessoas Jurídicas - CNPJ)

00320 (nº da unidade protocolizadora no Governo Federal)

*Brasil, Arquivo Nacional***Nodyn:** *Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Arquivo Nacional (Brasil)*

5.2 MAES DISGRIFIO

Diben y maes hwn yw disgrifio hanes, swyddogaethau, cyd-destun a gweithgareddau'r gorfforaeth gorfforedig, unigolyn neu deulu.

Rhaid cofnodi Dyddiadau bodolaeth (5.2.1) fel elfen ar wahân.

Gellir cofnodi'r wybodaeth a nodir yn rheolau 5.2.3-5.2.8 fel elfennau gwahanol, strwythuredig a/neu fel testun traethiadol yn 5.2.2.

5.2.1 Dyddiadau bodolaeth

Diben:

Nodi dyddiadau bodolaeth y gorfforaeth gorfforedig, unigolyn neu deulu.

Rheol:

Cofnoder dyddiadau bodolaeth yr endid a ddisgrifir. Dylid cynnwys dyddiad sefydlu/dyddiad deddfwriaeth alluogi a dyddiad diddymu corfforaethau corfforedig. Dylid cynnwys dyddiadau neu amcan-ddyddiadau geni a marw neu, os nad yw'r dyddiadau hyn yn hysbys, dyddiadau blodeuo unigolion. Lle defnyddir systemau dyddio cyfochrog, gellir defnyddio'r dyddiadau cyfatebol yn unol â chonfensiynau neu reolau perthnasol. Noder yn yr elfen Rheolau a/neu gonfensiynau (5.4.3) pa system(au) a ddefnyddir i ddyddio, e.e. ISO 8601.

Enghreifftiau:

1516 (probable)/1834-03-24

Sbaen, Archivo General de Simancas

Nodyn: Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Consejo de Guerra

12th – 20th century

Y Deyrnas Gyfunol, Yr Archifau Cenedlaethol: Comisiwn Brenhinol ar Lawysgrifau Hanesyddol

1573-XXe siècle

Ffrainc, Centre historique des Archives nationales

Nodyn: Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Bérulle, famille

5.2.2 Hanes

Diben:

Cyflwyno, yn gryno, hanes corfforaeth gorfforedig, unigolyn neu deulu.

Rheol:

Cofnoder prif ddiwyddiadau bywyd, gweithgareddau, llwyddiannau a/neu swyddogaethau'r endid a ddisgrifir naill ai mewn dull traethiadol neu fel cronoleg. Gall hyn gynnwys gwybodaeth am ryw, cenedligrwydd, teulu a chysylltiadau crefyddol neu wleidyddol. Dylid ychwanegu dyddiadau, lle bynnag y bo modd, fel rhan hanfodol o'r disgrifiad traethiadol.

Enghreifftiau:

El Consejo de Órdenes fue establecido a raíz de la incorporación a la Corona de los maestrazgos de las órdenes militares castellanas (Santiago, Calatrava y Alcántara) (1487-1495). Su fecha de creación no está determinada con exactitud, aunque algunos autores la sitúan sobre 1498.

El Consejo de Órdenes, que en 1707 había asumido también la administración de Montesa, aunque no fue formalmente incluido en las reformas de la Administración del Antiguo Régimen de 1834 (RR.DD. de 24 de marzo de 1834, Decreto V), se transformó en 1836 en un nuevo organismo constitucional, el "Tribunal Especial de las Órdenes".

Sbaen, Archivo Histórico Nacional

Nodyn: Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Consejo de Órdenes

The York University Senior Common Room was established at Glendon Hall in 1963. This Senior Common Room became the Glendon College Common Room in 1966 when the Founders College Senior Common Room opened on the Keele Street campus in that year. This latter establishment was renamed the York University College Faculty Common Room in 1968 and, as new colleges were opened on the campus an umbrella body, the York University Senior Common Room Inc., was established to serve as a license holder and victuals contractor for the several SCR's. Membership in the Senior Common Room was restricted to academic and senior administrative staff, although honorary or special members could be adopted by the membership. The Senior Common Room Inc. was managed by a five-person Board of Directors who were all regular members of the SCR. The Senior Common Room Inc. was disbanded in 1976.

Canada, York University Archives

Originaire de Champagne, la famille Bérulle fut anoblée par charge en 1573, en la personne de Claude de Bérulle, conseiller au Parlement, marié à Louise Seguier. De cette union naquirent deux fils : Pierre et Jean de

Bérulle. Pierre (1575-1629) fut l'auteur de l'établissement des Carmélites, le fondateur et le premier général des prêtres de l'Oratoire en France. Il fut promu cardinal, en 1627. Son frère, Jean eut un fils unique, Charles de Bérulle. L'arrière-petit-fils de Charles, Amable-Pierre-Thomas, marquis de Bérulle, fut premier président au parlement de Grenoble après 1760. Il épousa en 1748 Catherine-Marie-Rolland, fille de Pierre-Barthélémy Rolland, comte de Chambaudoin, conseiller de Grand-Chambre. Le nom des Bérulle s'éteignit au XX^e siècle. La famille Bérulle était alliée aux familles du Châtelet et Habart.

Ffrainc, Centre historique des Archives nationales

Nodyn: *Hanes ar gyfer y cofnod awdurdodaeth :Bérulle, famille*

1918 Geheimer Regierungsrat im Reichsjustizministerium, 1921-1927 Ministerialdirektor im Reichsministerium des Innern, 1928-1933 Vizepräsident der Reichsschuldenverwaltung, Mitglied des Verfassungsausschusses der Länderkonferenzen, 1932 Vertreter Preußens vor dem Staatsgerichtshof, 1933-1953 Professor für Staatswissenschaften an der New School for Social Research New York.

Yr Almaen, Bundesarchiv

5.2.3 Lleoedd

Diben:

Nodi prif leoliadau a/neu diriogaethau'r gorfforaeth gorfforedig, neu'r manau lle bu unigolyn neu deulu'n byw neu'n preswyllo, neu fan(nau) yr oedd ganddo/ganddynt gysylltiad arall perthnasol â gwrthrych y cofnod.

Rheol:

Cofnoder enw'r prif le(oedd)/diriogaeth(au), ynghyd â natur a dyddiadau cynhwysol y berthynas gyda'r endid.

Enghreifftiau:

- Valladolid (sede habitual hasta 1561 y en 1601/1605)

- Madrid (sede en 1561/1601 y 1606/1839)

Sbaen, Archivo General de Simancas

Nodyn: *Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Consejo de Guerra*

Estates in 1883: Rutland 15,076 acres, Gloucestershire 3,170 acres, Leicestershire 159 acres, Lincolnshire 89 acres, Warwickshire 68 acres, Northamptonshire 6 acres; total 18,568 acres worth £28,991 a year.

Y Deyrnas Gyfunol, Yr Archifau Cenedlaethol: Comisiwn Brenhinol ar Lawysgrifau Hanesyddol

Birth: Krefeld, Germany (14 May 1899) Death: Edinburgh (17 March 1994)

Y Deyrnas Gyfunol, Y Gymdeithas Frenhinol

Les Larcher, seigneurs d'Olizy en Champagne, étaient originaires de Paris. Leurs seigneuries d'Arcy et d'Avrilly étaient situées dans les actuels départements de Saône-et-Loire et de l'Allier.

Ffrainc, Centre historique des Archives nationales

Nodyn: *Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Larcher, famille*

Sediado no Rio de Janeiro e dispondo de uma coordenação regional no Distrito Federal, em Brasília, atua em todo o território nacional

Brasil, Arquivo Nacional

Nodyn: *Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Arquivo Nacional (Brasil)*

5.2.4 Statws cyfreithiol

Diben:

Nodi statws cyfreithiol corfforaeth gorfforedig.

Rheol:

Cofnoder statws cyfreithiol a, lle bo'n briodol, y math o gorfforaeth gorfforedig, ynghyd â dyddiadau cynhwysol pan oedd y statws hwn mewn bod.

Enghreifftiau:

Organismo de la Administración Central del Estado 1516 (probable)/1834

Sbaen, Archivo General de Simancas

Nodyn: *Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Consejo de Guerra*

Department of State

Awstralia, National Archives of Australia

Órgão público do Executivo Federal, da administração direta

Brasil, Arquivo Nacional

Nodyn: *Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Arquivo Nacional (Brasil)*

Ufficio governativo di antico regime

Yr Eidal, Archivio di Stato di Firenze

5.2.5 Swyddogaethau, galwedigaethau a gweithgareddau

Diben:

Nodi swyddogaethau, galwedigaethau a gweithgareddau a gyflawnid gan y gorfforaeth gorfforedig, unigolyn neu deulu.

Rheol:

Cofnoder y swyddogaethau, y galwedigaethau a'r gweithgareddau a gyflawnid gan yr endid a ddisgrifir, ynghyd â dyddiadau cynhwysol lle byddai hyn yn ddefnyddiol. Os oes angen, dylid disgrifio natur y swyddogaeth, yr alwedigaeth neu'r gweithgaredd.

Engbreiffiau:

La Segreteria del regio diritto fu competente nelle seguenti materie:
 negli affari che in materie beneficiari ed ecclesiastiche interessavano i diritti della corona;
 la difesa dei diritti, anche di privati, che fossero lesi dalla giurisdizione ecclesiastica;
 la concessione dell'Exequatur ai brevi pontifici e agli atti di paesi esteri, ma solo nel caso in cui non ledevano i diritti pubblici toscani;
 la concessione del permesso di entrare in possesso di benefici a chi ne avesse decreto di legittima investitura;
 la spedizione dei benefici di nomina regia, previo consulto e consenso del principe, e la spedizione dei benefici di patronato popolare e comunitativo e di patronato dei luoghi pii dipendenti dallo Stato;
 la supervisione e cognizione economica dei ricorsi contro gli ecclesiastici, secolari e regolari;
 la soprintendenza alla amministrazione dei conventi, dei monasteri, conservatori e luoghi pii, non dipendenti dalle amministrazioni comunitative del Granducato;
 la vigilanza per la conservazione degli edifici sacri;
 la presa visione e cognizione di tutti gli affari relativi alle leggi di ammortizzazione e di tutte le suppliche riguardanti i patrimoni ecclesiastici del Granducato.

Yr Eidal, Archivio di Stato di Firenze

La finalidad del Consejo de Guerra fue la resolución de todos los asuntos relacionados con el ámbito militar. Simultáneamente tuvo competencias judiciales y gubernativas.

Por las primeras entendía en todas las causas civiles y criminales en las que intervenía personal militar.

Por las segundas resolvía cuestiones de levas y reclutamientos, nombramientos de jefes militares, aprovisionamiento, construcción de navíos, preparación de armadas, fabricación de armamento, sistemas defensivos, hospitales, ejércitos permanentes de la Península (guardas y milicias...).

En el s.XVIII con la creación de la Secretaría del Despacho Universal de la Guerra las atribuciones del Consejo quedaron reducidas a cuestiones contenciosas y judiciales, asuntos de protocolo e interpretación de ordenanzas y reglamentos militares.

El ámbito territorial de actuación se limitó a la Península, Islas Baleares y Canarias así como norte de África.

Sbaen, Archivo General de Simancas

Nodyn: *Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Consejo de Guerra*

Estate ownership; social, political and cultural role typical of the landed aristocracy in England. The first Viscount Campden amassed a large fortune in trade in London and purchased extensive estates, including Exton (Rutland) and Chipping Campden (Gloucestershire). The Barham Court (Kent) estate was the acquisition of the first Baron Barham, a successful admiral and naval administrator (First Lord of the Admiralty 1805).

Y Deyrnas Gyfunol, Yr Archifau Cenedlaethol: Comisiwn Brenhinol ar Lawysgrifau Hanesyddol

Defence Co-ordination; Internees (NAA Functions Thesaurus);

The Department of Defence Co-ordination was responsible for the co-ordination of defence activities, and in particular, for the following:

- (i) Defence policy: All matters of Defence policy in their relation to the Departments of Navy, the Army, Air and Supply and Development
- (ii) Administrative co-ordination and review:
 - (a) Co-ordination of the activities and requirements of the Navy, Army and Air Departments in the administrative sphere.
 - (b) Higher co-ordination between the Departments of the Navy, Army, Air and Supply and Development in its relation to the requirements of the several services.
 - (c) Co-ordination of all joint-service matters.
 - (d) Co-ordination of Civil Staff matters (other than Public Service).
- (iii) Financial Co-ordination and review:
 - (a) Co-ordination of the financial requirements of defence policy affecting Departments of Army, Navy, Air, Supply and Development, and defence Co-ordination.
 - (b) Review of major financial proposals and expenditure of the Departments referred to in (a).
 - (c) General control of funds allotted for the carrying out of Defence Policy, together with the

- supervision of audit authorisations and expenditure
- (d) Co-ordination of the financial regulations of the Departments of Navy, Army and Air.
- (iv) Works Co-ordination and review:
 - (a) Co-ordination of the works requirements of the Service Departments and the Department of Supply and Development.
 - (b) Maintenance of uniform standards and specifications.
 - (c) Inspection and review.
 - (d) General schemes of office accommodation for the Department of Defence Co-ordination, Navy, Army and Air, including the Victoria Barracks area.
- (v) Commonwealth War Book:
 - (a) Maintenance of the Commonwealth War Book
 - (b) General Administration of the National Security Act and Regulations and co-ordination of departmental action thereunder.
- (vi) Civilian defence and State Co-operation: Advice on plans for civil defence and co-ordination of activities of States in relation thereto.

Awstralia, National Archives of Australia

Gestão e recolhimento dos documentos produzidos e recebidos pelo Poder Executivo Federal, preservação e acesso aos documentos sob sua guarda e acompanhamento e implementação da política nacional de arquivos, na forma do disposto no art. 2º do decreto nº 3.843, de 13/6/2001.

Brasil, Arquivo Nacional

Nodyn: *Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Arquivo Nacional (Brasil)*

Les Larcher, seigneurs d'Olizy en Champagne, étaient originaires de Paris. Plusieurs membres de cette famille furent, du XVI^e au XVIII^e siècle, intendants, conseillers au Parlement, présidents en la Chambre des comptes.

Ffrainc, Centre historique des Archives nationales

Nodyn: *Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Larcher, famille*

Lawyer; Civil Servant; Professor for Public Policy

Yr Almaen, Bundesarchiv

5.2.6 Mandadau/Ffynonellau awdurdod

Diben:

Nodi ffynhonell awdurdod y gorfforaeth gorfforedig, unigolyn neu deulu o ran pwerau, swyddogaethau, cyfrifoldebau neu faes gweithredu, yn cynnwys rhai tiriogaethol.

Rheol:

Cofnoder pob dogfen, deddf, cyfarwyddyd neu siartr sy'n ffynhonell awdurdod ar gyfer y pwerau, y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau a ddisgrifir, ynghyd â gwybodaeth am yr awdurdod(au) a'r dyddiadau cynhwysol pan oedd y mandad(au) mewn bod neu pan fu newid.

Enghreifftiau:

- Instrucciones de 1586-06-13 por las que se crean y definen las secretarías de Tierra y Mar.
- Real Cédula de 1646-04-14 sobre división de la Secretaría de Tierra en dos: Secretaría de Tierra-Cataluña y Secretaría de Tierra- Extremadura.
- Real Decreto de 1706-10-02 reduciendo a una las dos secretarías del Consejo.
- Real Decreto de Nueva Planta para el Consejo de Guerra de 1714-04-23.
- Real Decreto de Nueva Planta para el Consejo de Guerra de 1715-08-23.
- Real Decreto de Nueva Planta para el Consejo de Guerra de 1717-01-20.
- Real Cédula de Nueva Planta para el Supremo Consejo de la Guerra de 1773-11-04
- Decreto de 1834-03-24 de supresión de Consejo de Guerra.

Sbaen, Archivo General de Simancas

Nodyn: *Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Consejo de Guerra*

Creation: Executive Council Meeting No. 72 (Prime Minister's Department No.167) 13 November 1939

Abolition: Executive Council Meeting No.59A (Prime Minister's Department No.13) of 14 April 1942.

The Administrative Arrangements Orders of 29 November 1939

(Commonwealth of Australia Gazette, No. 153 of 30 November 1939) listed the Acts administered by the Department as:

- Defence Act 1903-1939 (except in relation to the organisation and control of the Naval Forces or the Military Forces)
- Defence Equipment Act 1924, 1928, 1934, 1936, 1937, 1938, 1939
- Defence (Visiting Forces) Act 1939
- Geneva Convention Act 1938
- National Registration Act 1939
- National Security Act 1939

- Telegraph Act 1909
- War Precautions Act Repeal Act 1930-1934, Section 22
- *Australia, National Archives of Australia*

Admitted to the Royal Australasian College of Medical Administrators, 1 May 1974
Australia, Australian Science and Technology Heritage Centre

C'est par la loi du 28 pluviôse an VIII (17 février 1800) que Napoléon Bonaparte crée la fonction préfectorale à la tête du département, circonscription administrative instituée le 22 décembre 1789 par la Constituante. En 1800, le préfet devient dans le département "le seul chargé de l'administration" (art. 3). L'ordonnance du 6 novembre 1817 réduit le Conseil de préfecture de la Somme à 3 membres. Le décret du 28 mars 1852 le réduit de 5 à 4 membres, confirmé par la loi du 21 juin 1865. La loi du 6 septembre 1926 réforme l'organisation des conseils de préfecture, qu'elle supprime (intégration au conseil de préfecture interdépartemental de Rouen). Ces derniers sont, par décret du 30 septembre 1953, rebaptisés "tribunaux administratifs".

Également institué par la loi du 28 pluviôse an VIII, le poste de secrétaire général a subi bien des vicissitudes : supprimé en 1817, rétabli en 1820, supprimé à nouveau par ordonnance du 1er mai 1832, rétabli par décret du 28 décembre 1854 et définitivement rétabli en 1865.

Ffrainc, Archives départementales de la Somme

Nodyn: Ar gyfer y cofnod awdurdodaeth: Somme, préfecture

5.2.7 Strwythurau mewnol/Achydiaeth

Diben:

Disgrifio a/neu gynrychioli strwythur(au) gweinyddol mewnol corfforaeth gorfforedig neu achau teulu. *Rheolau:*

Disgrifir strwythur gweinyddol corfforaeth gorfforedig a dyddiadau unrhyw newidiadau i'r strwythur hwnnw sydd o bwys wrth geisio deall sut cynhaliodd y gorfforaeth gorfforedig ei gweithgareddau (e.e. trwy gyfwrng siartiau yn dangos y drefniadaeth, gyda dyddiadau). Disgrifir achau teulu (e.e. trwy gyfwrng achres) mewn ffordd sy'n amlygu cydberthynas aelodau'r teulu, gyda dyddiadau cynhwysol.⁴

Examples:

Hasta 1586 la organización interna del Consejo de Guerra fue mínima. Con el Rey como presidente, el Consejo estaba constituido por varios consejeros y un secretario, que lo era a su vez de otros consejos, ayudado por oficiales, escribientes y restante personal subalterno.

